

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU CYNEFINOEDD GWLYPTIR

Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredu cynefin grŵp hwn yn cynefinoedd ffeniau iseldir, cyforgors ar dir isel, gwelyau cyrs a thir pori corslyd ar forfa arfordirol a gorlifdir. Mae gwlyptiroedd yn un o'n hadnoddau naturiol pwysicaf. Maen nhw'n cynnal llawer o rywogaethau brodorol o fywyd gwyllt yn cynnwys planhigion gwlyptir, infertebratau, yn cynnwys gweision y neidr, adar, dyfrgwn a llygoden bengron y dŵr. Maen nhw'n rhan o dirwedd iach sy'n gweithio'n dda.



Mae gwlyptiroedd hefyd yn bwysig i bobl. Maen nhw'n darparu dwr ffres inni drwy hidlo llygredd ac maen nhw'n gallu gweithredu fel mannau storio dŵr sy'n lleihau'r perygl o lifogydd. Maen nhw'n darparu bywoliaeth i bobl. Fodd bynnag, mae cynefinoedd gwlyptir wedi dirywio'n fawr: mae ffeniau wedi cael eu draenio, corydd pori wedi cael eu haredig a'u hailhadu, gwelyau cyrs wedi cael eu llygru, a chorsydd tir isel wedi cael eu difrodi drwy dynnu mawn.

Heddiw caiff cynefinoedd gwlyptir eu cydnabod am y manteision y gallant eu rhoi inni, yn cynnwys helpu i glustogi'r eithafion sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Gallai rheoli ein cynefinoedd gwlyptir yn briodol a'u hail-greu yn y mannau iawn ddod â manteision mawr i'r sir.

Gall **gwelyau cyrs** ddigwydd fel ardaloedd bach o gynefin ar ymylon dyfroedd ac maen nhw felly'n aml yn reit ddarniog. Ar hyd y morlin, o Bynea i Gydweli mae nifer o enghreifftiau bach o welyau cyrs. Fodd bynnag, mae ardaloedd eang o welyau cyrs ger Pwll Witchett yn Nhwyni Lacharn a Ffrwd Fen ger Pinged. Mae ein morydau hefyd yn cynnal ardaloedd helaeth o gwelyau cyrs, megis yr ardal eang yn Llangennech, sy'n edrych dros aber Llwchwr.

Ceir **cyforgors tir isel** sylweddol ei maint yn y sir yng Nghors Goch, Llanllwch, ynghyd ag enghreifftiau llai ger Carmel a Beacon Bog, Caerfyrddin. Maen nhw'n enghreifftiau cynyddol brin o gynefin mawndir felly maen nhw'n bwysig fel dalfa garbon. Mae'n cynefinoedd hyn yn gallu cynnal amrywiaeth o blanhigion ac infertebratau arbenigol. Mae Cors Goch yn un o ddim ond dau safle yn ne Cymru lle ceir morgrugyn du'r gors.

Ceir ardaloedd arwyddocaol o **dir pori corslyd** o amgylch Moryd Byrri ac ardal Bae Caerfyrddin a thir pori corslyd ar **orlifdir** ar hyd rhannau isaf y prif ddyffrynnoedd afonydd, yn enwedig dyffrynnoedd Gwendraeth, Taf a Thywi. Mae hyn yn rhan o arwynebedd ehangach yn y sir ar un adeg, sydd wedi dirywio'n fawr erbyn hyn. Mae'r ardaloedd pwysicaf o dir pori corslyd ar **forfa arfordirol** yn ardaloedd isaf Gwendraeth a Phentywyn. Yma mae'r corydd yn weddol gyfan ac yn cadw cryn lawer o ddiddordeb bywyd gwyllt – mae Phentywyn yn bwysig i gwtiaid aur sy'n gaeafu. Mae'r naill ardal a'r llall yn bwysig oherwydd eu tirwedd.

Ar un adeg roedd Gwastadeddau Llanelli (i'r de-ddwyrain o Lanelli) yn dir pori corslyd ar forfa arfordirol. Mae llawer ohono wedi diraddio erbyn hyn yn sgil datblygu trefol a diwydiannol. Fodd bynnag, mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd wedi gwneud cryn lawer o waith creu cynefinoedd.

Manteision naturiol cynefinoedd gwlyptir

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Lliniaru llifogydd a darparu amddiffyniad i gartrefi.
- Mae gorlifdiroedd arfordirol/afonydd yn gynefinoedd pori pwysig i dda byw.
- Mae gwelyau cyrs yn storio ac yn hidlo dŵr – cânt eu defnyddio'n aml mewn cynlluniau i buro dŵr mwyngloddiau.
- Mae corsydd tir isel yn storio dŵr a charbon gan helpu i atal llifogydd a rheoli'r hinsawdd.

Pam mae cynefinoedd gwlyptir yn newid (o adroddiad *State of Nature*: www.rspb.org.uk/stateofnature/)?

- Addasu ffisegol a draenio.
- Llygru dŵr.
- Diffyg rheoli gweithredol.
- Newid hinsawdd.
- Tynnu dŵr.

Datganiad o weledigaeth ac amcanion

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal, ehangu a gwella cyflwr y cynefinoedd gwlyptir yn y sir a'r rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Byddai'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol hefyd yn ceisio hyrwyddo creu a chynnal gwlyptiroedd ac iddynt werth o ran bioamrywiaeth fel rhan o ddatblygiadau mawr megis cynlluniau ffordd a pharciau busnes, yn enwedig lle mae angen cyfleusterau arafu dŵr. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

WET1 Rheoli'r cynefinoedd gwlyptir hyn yn Sir Gaerfyrddin mewn modd cadarnhaol a'u cysylltu a'u hehangu lle mae hynny'n bosib.

WET2 Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gynefin.

WET3 Nodi a chofnodi ardaloedd o gynefinoedd gwlyptir yn Sir Gaerfyrddin y tu allan i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

WET4 Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd gwlyptir a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

Rhywogaethau Cynllun Gweithredol Bioamrywiaeth/Ad42 cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr):

Adar – y Gylfinir, Golfan y mynydd, y Gog, Bras y cyrs, Troellwr bach, Titw'r helyg, Drudwen, Cornchwiglen, Siglen felen.

Mamaliaid – Llygoden yr yd, Llygoden bengron y dŵr, Dyfrgi

Ymlusgiaid - Madfall, Llyffant dafadennog, Neidr y gwair, Gwiber

Planhigion/Ffyngau – Cegiden bibellaidd, *Euphrasia rivularis*, Brymllys, Tegeirian y fign galchog, Agarig, *Armillaria ectypa*

Infertebratau – Chwilen blymio (*Hydroporus rufifrons*), Clustwyfyn cilgantog, Brychan lletraws, Clai'r rhos, Dart deunod, Gwyfyn gwythien goch.

Crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Goch – clirio prysgwydd a gwella mynediad – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WET1
- Parc Gwledig Llyn Llech Owain – adfer cors drwy glirio coed a blocio ffosydd – Cyngor Sir Caerfyrddin WET1
- Crëwyd is-grŵp Gwlyptiroedd i'r sir – Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyfoeth Naturiol Cymru/Yr Ymddiriedolaeth Natur/Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar/Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir WET1/4
- Safle o Ddidordeb Gwyddonol Arbennig Ffrwd Farm Mire –gwaith rheoli drwy bori a rheoli prysgwydd – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WET1
- Arolwg ansawdd cynefin o ffosydd/gorlifdir yn Llanelli ar gyfer llygoden bengron y dŵr – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru /Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyfoeth Naturiol Cymru WET3
- Adfer cors ar Gomin Pyllau Cochion, ger Brechfa – Cyngor Sir Caerfyrddin WET1

2013

- Prosiect adfer corsydd ar dir comin uchel a gyllidwyd gan y Gronfa Ecosystemau Gwydn - rheoli prysgwydd / cynlluniau rheoli - Cyngor Sir Caerfyrddin / Cyfoeth Naturiol Cymru WET1
- Arolwg o lygod medi wedi'i gynnal yn Median Farm – Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy WET2
- Gwella mynediad i Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Goch (cyforgors ar dir isel) – fel bod mynediad gan beiriannau ac anifeiliaid at ddibenion pori – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru WET1
- Clirio prysgwydd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Goch i helpu i adfer y gyforgors – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WET2
- Clirio prysgwydd ar laswelltir corsiog a chorslwyni ymylol i greu nodwedd dŵr agored yn y dyfodol - Gwarchodfa Natur Cors Fferm y Ffrwd – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WET2
- Rheoli ffosydd - Gwarchodfa Natur Cors Fferm y Ffrwd – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WET1
- Parc Dŵr y Sandy - rheoli'r cynefinoedd ar ymylon y llyn - Cyngor Sir Caerfyrddin WET1
- Merllyn y Pwll – rheoli'r ffen i waredu coed ifanc bedw a helyg - Cyngor Sir Caerfyrddin WET1

2014

- Codwyd ffensys ar hyd nifer o gilometrau o ffosydd yn ardal Pen-bre er mwyn diogelu a gwella'r cynefin rhwydwaith ffosydd ar wastatiroedd Gwendraeth – CNC
- Cynhaliwyd prosiect yng Ngwarchodfa Natur Leol Merllyn y Pwll er mwyn cael gwared â phrysgwydd o'r ffendir. CSC/CNC
- [Prosiect corsydd a gyllidwyd ag arian o'r Gronfa Ecosystemau Gwydn](#) – cynhaliwyd arolwg o'r mawn mewn chwe chors ar diroedd comin - CSC

- [Prosiect coryydd a gyllidwyd ag arian o'r Gronfa Ecosystemau Gwydn](#) – cynhaliwyd arolwg hydrolegol o gomin y Figyn - CSC
- [Prosiect coryydd a gyllidwyd ag arian o'r Gronfa Ecosystemau Gwydn](#) – caewyd ffos ar gomin y Figyn i adfer cynefin cors yno – CSC
- [Prosiect coryydd a gyllidwyd ag arian o'r Gronfa Ecosystemau Gwydn](#) – crëwyd strimynnau atal tân er mwyn diogelu'r coryydd ar 4 comin
- [Prosiect coryydd a gyllidwyd ag arian o'r Gronfa Ecosystemau Gwydn](#) – gosodwyd 3 o baneli gwybodaeth a lluniwyd taflen er mwyn rhoi gwybodaeth i bobl am gynefinoedd y coryydd - CCC
- Dechreuwyd clirio llystyfiant o'r pwll ar gylchdro blynyddol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Goch - YNDGC
- Gwaredwyd conwydd ymledol o'r coryydd ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain - Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid / Cyngor Sir Caerfyrddin / Gwirfoddolwyr
- Bydd gwaith clirio ffosydd yn cael ei wneud yn ôl trefn gylchdro yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Fferm y Ffrwd – YNDGC

2015

- Clirio llystyfiant o ardal o gors Ffrwd er budd planhigyn prin pys y gors - WTSWW WET1/2
- [Prosiect Coryydd Sir Gaerfyrddin Cronfa Dreftadaeth y Loteri](#) – ffos wedi'i blocio ar Gomin Figyn - CSC WET1
- Prosiect Coryydd Sir Gaerfyrddin Cronfa Dreftadaeth y Loteri – toriadau gwrthdan ar 3 chomin sydd â chorsydd - CSC WET1
- Prosiect Coryydd Sir Gaerfyrddin Cronfa Dreftadaeth y Loteri – trin clymog ar gomin Pyllau Cochion - CSC WET1
- Dadansoddi craidd mawn o Gomin Pyllau Cochion – Prifysgol Abertawe WET3
- Cyfarfodydd i drafod Prosiect Gwlyptiroedd Caerfyrddin a'r gwaith rheoli angenrheidiol – CSC/CNC WET1
- Arolwg hydrolegol o wastadeddau Gwendraeth – RSPB/CNC WET3
- Rheoli prysg a oedd yn tyfu dros gynefinoedd coryydd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel – WTSWW WET1

Camau arfaethedig i'r dyfodol

- Ystyried rheoli cynefin gwlyptir sy'n berchen i CSC wrth ymyl WWT – CSC WET1
- Gofalu am lif drwy ardal Gwlyptiroedd Llanelli o amgylch WWT a Morfa Berwig – CNC WET3
- Parhau â Phrosiect Coryydd Sir Gaerfyrddin Cronfa Dreftadaeth y Loteri WET1
- Rheoli ardal o wlyptir islaw Castell Cydweli – Burns Pet Foods/CNC WET1
- Coryydd Coed-bach – rheoli cynefin a mynediad ymwelwyr – RSPB WET1/4
- Caerfyrddin – rheoli ardal o wlyptir ar ymyl y dref – gan gynnwys ar gyfer gofod cyhoeddus agored – CSC/CNC WET1

Dolenni defnyddiol:

www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/wetlands-and-rivers

www.wwt.org.uk/visit/llanelli/

www.rspb.org.uk/futurescapes/

www.wetlandvision.org.uk/

<http://jncc.defra.gov.uk/page-1433>

<http://www.bioamrywiaethcymru.org.uk>

Ble gallwch chi weld y cynefinoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin:

Gwelyau cyrs/Ffen: Ffrwd Fen ger Pinged; Parc Arfordirol y Mileniwm


Tir pori corslyd – Trwyn Ginst; yr arfordir rhwng Pen-bre a Chydweli

Cyforgors ar dir isel: Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Goch (cysylltwch â Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru)

Mapiau wedi'u defnyddio gyda chaniatâd Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2004. Tynnwyd o *Priority Habitats of Wales: a technical guide*, golygyddion P. S. Jones, D. P. Stevens, T. H. Blackstock, C. R. Burrows ac E. A. Howe., 2003.


Atgynhyrchwyd o'r map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Cedwir Hawlfraint y Goron -LA0997L

Gwely cyrs




Dosbarthiad safleoedd gyda gwelyau cyrs yn Sir Gaerfyrddin. Crynhowyd y data o arolwg Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar o welyau cyrs Cymru (Tyler, 1993).

Ffen (pob elfen) a gwelyau




Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefinoedd a gaiff eu cyfeirio at y Cynllun Gweithredu Cynefinoedd ffen a gwelyau cyrs yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r data'n cynnwys enghreifftiau tir isel o'r tri chategori Cam 1 o ffen (mewn pant, dyffryn a gorlifdir), llac a chors ac mae wedi'i grynhoi o Arolwg Cynefinoedd Iseldir Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997).

Tir pori corslyd ar forfa arfordirol a gorlifdir




Dosbarthiad a maint safleoedd sydd â chynefin tir pori corslyd ar forfa arfordirol a gorlifdir yn Sir Gaerfyrddin. Crynhowyd y data o gyhoeddiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Inventory of Coastal and Floodplain Grazing Marshes Dargie & Dargie, 1998, sydd wedi'i seilio i raddau helaeth ar Arolwg Cynefinoedd Iseldir Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997).

Cyforgors ar dir isel



Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin cyforgors tir isel yn Sir Gaerfyrddin. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1979 – 1997) ac mae'n cynnwys cyforgors ac ardaloedd o gors adnewidiadol a briodolir i'r math hwn o gynefin â blaenoriaeth.

Ardaloedd Gwlyptir â Blaenoriaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Cyngor Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorrlewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gwarchod Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, Naturiaethwyr Llanelli, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorrlewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid